

From: [REDACTED]
To: Wylfa@pins.gsi.gov.uk
Subject: Datganiad o Dir Cyffredin
Date: 15 April 2019 21:31:46
Attachments: [Datganiad o Dir Cyffredin - Saes - PNH + FFIM.pdf](#)

At aelodau Awdurdod Arolygu yr Arolygiaeth Gynllunio sy'n ystyried cais cynllunio Pwer Niwclear Horizon am Orchymyn Cydsynio Datblygu ar gyfer prosiect Wylfa Newydd,

Gohebiaeth i'w chynnwys ar ran PAWB, Pobl Atal Wylfa B/People Against Wylfa B cyn eich terfyn amser Ebrill 17.

Hoffai PAWB dynnu eich sylw at y ddogfen atodedig sef y Datganiad o Dir Cyffredin rhwng Pwer Niwclear Horizon a Fforwm Iaith Môn. Mae'r teitl hwnnw yn gwbl gamarweiniol mewn gwirionedd gan nad yw Fforwm Iaith Môn yn barod i gadarnhau cynnwys y ddogfen. Fe welwch y golofn goch sy'n rhedeg i lawr ochr dde'r ddogfen bron drwyddi draw ac eithrio'r tudalennau cyflwyniadol a'r geiriau 'Not agreed' yn ymddangos yn gyson i ddangos nad yw ymdrech Horizon at greu dogfen gredadwy ynglyn ag effaith debygol enfawr datbygiad Wylfa Newydd ar y Gymraeg fel priod iaith hanesyddol a phresennol Ynys Môn, yn argyhoeddi'r Fforwm. Dros yr un tudalennau yn y golofn ganol mae sylwadau Fforwm Iaith Môn sy'n mynegi eu cwestiynau, pryderon a phwyntiau o anghytuneb. Mae'r cynnwys yn golygu nad oes Tir Cyffredin o gwbl rhwng Fforwm Iaith Môn a Horizon.

Mae'n ddiddorol nodi bod gan Gyngor Sir Ynys Môn gynrychiolydd ar Fforwm Iaith Ynys Môn fel yr awdurdod unedol lleol. Nodwn hefyd fod trefniadau ar wahân rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Horizon ynglyn ag effaith bosibl Wylfa Newydd ar y Gymraeg. Rydym yn gryf o'r farn na ddylai unrhyw gytundeb posibl rhwng Cyngor Ynys Môn a Horizon ar effaith Wylfa Newydd ar y Gymraeg gael ei ddederbyn yn ddigwestiwn gennych fel awdurdod arolygu gan y byddai unrhyw gytundeb o'r fath yn cael ei danseilio gan y diffyg cytundeb rhwng Horizon a Fforwm Iaith Môn yn yr un maes. Ailadroddaf fod cynrychiolydd o Gyngor Sir Ynys Môn yn aelod o Fforwm Iaith Môn. Mae'r Fforwm Iaith yn cynrychioli trawsdoriad o fudiadau sy'n gweithredu o ddydd i ddydd o blaid y Gymraeg a'i dyfodol fel iaith cymunedau Môn. Rhyngddynt mae ganddynt arbenigedd ymarferol mewn cynllunio ieithyddol a chymunedol a hybu defnydd y Gymraeg pob dydd. Mae'n amlwg nad yw pryderon na chwestiynau teg y Fforwm Iaith wedi cael eu hateb gan Horizon.

Mae llawer o'r sylwadau gan Fforwm Iaith Môn yn adleisio'r pryderon a fynegais ar ran PAWB mewn sesiwn gyhoeddus o'ch blaenau fel arolygwyr ym Mhafifwn Sioe Môn mewn sesiwn gyhoeddus gyda'r nos yn ôl ym mis Hydref 2018. Yn benodol, rhannwn bryder y byddai datblygiad mor enfawr yn denu miloedd o weithwyr adeiladu i'r ardal, a byddai eu presenoldeb yn gostwng canran siaradwyr Cymraeg yn ein cymunedau yn ddramatig. Apeliwn arnoch fel arolygwyr i ystyried y cyd-destun ieithyddol hwn fel un cwbl sylfaenol a gwahanol i unrhyw gais a fu o'ch blaen fel un EdF ar gyfer Hinkley Point C, ac unrhyw gais arall am ddatblygiad ynni niwclear a allai ddod o'ch blaenau yn y dyfodol. Gan fod y gwahaniaeth barn mor ddfwf yn y cyd-destun hwn, credwn fod gennych dir cadarn i wrthod caniatáu'r Gorchymyn Cydsynio Datblygu i Pwer Niwclear Horizon. Mae'r ffaith fod y cais hwn gan Horizon mewn sir gyda'r ganran ail uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn ei wneud yn unigryw. Anghymwynas o'r mwyaf fyddai i chi gymeradwyo unrhyw ddatganiadau gan Horizon ynglyn â'r Gymraeg ym Môn a'u gwaith ar y pwnc wedi bod mor gwbl arwynebol ac anfoddhaol.

Edrychwn ymlaen at glywed oddi wrthych.

Yn gywir,
Dylan Morgan
PAWB. Pobl Atal Wylfa B/people Against Wylfa B

This email has been scanned by the Symantec Email Security.cloud service.
For more information please visit <http://www.symanteccloud.com>
